

MAGNETIG 4

Bydd yr alwad am geisiadau ar gyfer y bedwaredd rownd o breswylfeydd yn y celfyddydau gwledol rhyngwladol Magnetig yn Ffrainc ac ym Mhrydain ar agor rhwng 20 Mai a 14 Gorffennaf 2025.

Mae Magnetig yn parhau yn yr un fformat ag o'r blaen gyda 12 partner rhyngwladol. Mae eisoes wedi cefnogi 27 artist o Brydain a Ffrainc.

MAGNETIG

Mae Magnetig yn fenter ar y cyd rhwng Prydain a Ffrainc dan ymbarél Prosiectau Celf Fluxus sy'n dod â 10 sefydliad at ei gilydd i greu rhwydwaith o breswylfeydd i artistiaid yn rhanbarthau Ffrainc a gwledydd Prydain.

Mae pob preswylfa yn seiliedig ar bartneriaeth rhwng rhanbarth Ffrainc a chenedl ym Mhrydain:

- Capc, Bordeaux, Nouvelle-Aquitaine ar gyfer ymgeiswyr yn Lloegr
- Canolfan Gelfyddydau Wysing, Caergrawnt, Lloegr ar gyfer ymgeiswyr yn Nouvelle-Aquitaine
- Frac Grand Large, Dunkirk, Hauts-de-France, ar gyfer ymgeiswyr yng Ngogledd Iwerddon
- Stiwdios Celf Flax, Belfast, Gogledd Iwerddon ar gyfer ymgeiswyr yn Hauts-de-France
- Villa Arson, Nice, Provence-Alpes-Côte d'Azur ar gyfer ymgeiswyr yn yr Alban
- Cove Park, Agryll a Bute, Yr Alban ar gyfer ymgeiswyr yn Provence-Alpes-Côte d'Azur
- Frac Bretagne, Roazhon/Rennes, Llydaw ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru
- Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth ar gyfer ymgeiswyr yn Llydaw
- Bétonsalon - Centre d'art et de recherche, Paris, Île-de-France ar gyfer ymgeiswyr yn Lloegr
- Gweithfeydd Nwy, Llundain ar gyfer ymgeiswyr yn Île-de-France

Rydym yn gwahodd artistiaid o bob un o'r 5 rhanbarth yn Ffrainc i ymgeisio am breswylfa yn y genedl gysylltiedig ym Mhrydain ac artistiaid o bob cenedl ym Mhrydain i ymgeisio am breswylfa yn y rhanbarth cysylltiedig yn Ffrainc.

Mae rhagor o wybodaeth am y lleoliadau ar wefan Fluxus.

Materion cymdeithasol ac amgylcheddol sydd wrth wraidd y rhaglen: mae'r preswylfeydd yn arbennig i bob lleoliad. Byddwch yn ymateb i gyd-destun daearyddol, hanesyddol, cymdeithasol neu artistig penodol.

Mae Magnetig 4 yn cynnig:

- preswylfa 2-3 mis wedi'i deilwra mewn trafodaeth â thîm curadurol y sefydliad
- £2,100/2.500 € ffi fisol
- llety a gweithle

- mentora curadurol
- cyfleoedd rhwydweithio rhyngwladol

Rydym yn edrych ymlaen at eich cais.

Amserlen:

- 20 Mai–14 Gorffennaf 2025: galwad agored am geisiadau
- Hanner cyntaf Medi: pwyllgorau dewis gyda chyfweliadau
- 17 Hydref: cyhoeddi'r enillwyr yn ystod Frieze yn Llundain
- Gaeaf: preswylfeydd yn dechrau

Os hoffech ymgeisio, cyflwynwch gynnig artistig sy'n amlinellu pa mor berthnasol ac arbennig yw'ch ymarfer a'ch diddordebau ymchwil yng nghyd-destun y sefydliad dan sylw. Hefyd testun byr sy'n esbonio eich rheswm dros gael preswylfa rhyngwladol ar yr adeg yma yn eich gyrfa a'r manteision fydd.

Sylwer:

- Dim ond artistiaid gweledol cyfoes sy'n gallu ymgeisio
- Nid yw myfyrwyr yn gallu ymgeisio
- Rydych yn byw lle mae'ch cyfeiriad post
- Un cais yn unig sydd gan ymgeiswyr o Loegr - i Capc, Bordeaux neu Bétonsalon, Centre d'art et de recherche, Paris
- I bobl o Gymru: ysgrifennwch eich cais yn Gymraeg neu Saesneg
- Nid ydym yn derbyn ceisiadau ar y cyd

Rydym yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr o bob cefndir ac yn annog ymgeisio gan y rhai o gymunedau sydd wedi'u tangynrychioli o ran hil, ethnigrwydd, rhyw, tlodi, pobl F/fyddar, anabl a niwroamrywiol. Mae hygyrchedd yn amrywio rhwng y lleoliadau. Mae ein gwefan yn disgrifio pob sefyllfa. Rydym yn agored i drafod eich gofynion penodol. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hygyrchedd neu os oes angen cymorth arnoch ar unrhyw gam o'r broses ymgeisio, cysylltwch â ni.

Cyswllt: fluxusartp@gmail.com

<https://fluxusartprojects.com/Magnetig-residencies>

Cefnogir Magnetig gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, yr Alban Greadigol, y Cyngor Prydeinig, Cyngor Celfyddydau Lloegr, y Loteri Genedlaethol, yr Institut français du Royaume-Uni, yr Institut français, Gweinyddiaeth Diwylliant Ffrainc a Gweinyddiaeth Ewrop a Materion Tramor Ffrainc.

